**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

9 Chwefror 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Ysgrifennaf ymhellach at fy llythyr dyddiedig 14 Ionawr 2022, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i adrodd ar gyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, ar 17 Ionawr 2022, ac yn gadeirydd arno. Y prif bwnc trafod oedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU).

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd Michael Matheson ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth, Edwin Poots ACD, y Gweinidog Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, Greg Hands AS y DU, y Gweinidog Gwladol dros Fusnes, Ynni a Thwf Glân, a Lucy Frazer AS y DU, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys.

Fel Awdurdod ETS y DU, trafodwyd cychwyn Mecanwaith Rheoli Costau (CCM) ETS y DU ddechrau mis Ionawr. I weld y cyd-ddatganiad gan Awdurdod ETS y DU – sydd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn aelodau ohono – ar Fecanwaith Rheoli Costau'r cynllun, cliciwch ar y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-ets-authority-cost-containment-mechanism-decisions/uk-ets-authority-statement-cost-containment-mechanism-decision-january-2022

Pwnc trafod arall yn y cyfarfod oedd yr ymgynghoriad arfaethedig ar gynigion i ddatblygu ETS y DU. Roeddwn yn falch clywed bod swyddogion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a phwysleisiais yr angen i gynnal yr ymgynghoriad cyn gynted â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change